CLARENCE HALL
POLISI IECHYD, DIOGELWCH A THÂN
Diweddarwyd ddiwethaf Ionawr 2023

CYNNWYS

Rhan 1: Datganiad Polisi Cyffredinol

Rhan 2: Trefnu Iechyd a Diogelwch

Rhan 3: Diogelwch Tân

Rhan 4 Damweiniau ac Adrodd am Ddamweiniau

- 4.1 Ysbytai a Meddygfeydd Meddygon Teulu Cyfagos
- 4.2 Diffibriliwr
- 4.3 Blwch Cymorth Cyntaf
- 4.4 Ffurflenni Damweiniau
- 4.5 RIDDOR (Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013)

Rhan 5 Rheolau Diogelwch

- 5.1 Llogwyr ac Ymwelwyr
- 5.2 Lleihau Perygl
- 5.3 Asesiadau Risg ac Arolygiadau
- 5.4 Contractwyr
- 5.5 Gweithio ar Uchder
- 5.6 Hylendid Bwyd
- 5.7 COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd)
- 5.8 Rhagofalon COVID

Rhan 6 Trefniadau Cyffredinol

- 6.1 Trwyddedau
- 6.2 Yswiriant
- 6.3 Adolygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch

RHAN 1 - DATGANIAD POLISI

Y ddogfen hon yw Polisi Iechyd, Diogelwch a Thân Clarence Hall, Crickhowell.

Mae Clarence Hall, Crickhowell yn elusen gofrestredig (1187701) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (11971202). Mae Ymddiriedolwyr y Neuadd wedi dirprwyo'r gwaith o reoli cydymffurfio â'r polisi hwn i Fwrdd Rheoli Clarence Hall ("y Bwrdd Rheoli"), sef corff rheoli Clarence Hall, Crickhowell.

Ein polisi yw:

(a) Darparu amodau gwaith, offer a systemau gwaith iach a diogel ar gyfer ein gwirfoddolwyr, gweithwyr, Ymddiriedolwyr a llogwyr.
(b) Cadw'r Neuadd a'r offer mewn cyflwr diogel i bob defnyddiwr.
(c) Darparu pa bynnag hyfforddiant a gwybodaeth ag sy'n angenrheidiol i Ymddiriedolwyr, gweithwyr a defnyddwyr.

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ac i weithredu'n gadarnhaol lle y gall wneud hynny'n rhesymol i atal anaf, afiechyd neu unrhyw berygl sy'n deillio o'i weithgareddau a'i weithrediadau.

Mae'r Bwrdd Rheoli o'r farn fod hybu iechyd a diogelwch ei Ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n defnyddio ei eiddo, gan gynnwys contractwyr a allai weithio yno, yn hynod o bwysig. Mae'r Bwrdd Rheoli yn cydnabod bod atal damweiniau yn effeithiol yn dibynnu cymaint ar agwedd feddyliol ymrwymedig tuag at ddiogelwch ag ar weithredu a chynnal a chadw offer a systemau gwaith diogel. I'r perwyl hwn, bydd y Bwrdd Rheoli yn ceisio annog gweithwyr, gwirfoddolwyr a defnyddwyr i ymgymryd â sefydlu a dilyn arferion gweithio diogel.

Bydd disgwyl i wirfoddolwyr, llogwyr, contractwyr ac ymwelwyr gydnabod bod dyletswydd arnynt i gydymffurfio â'r arferion a nodir gan y Bwrdd Rheoli, gyda'r holl ofynion diogelwch a nodir yn y cytundeb llogi a chyda hysbysiadau diogelwch ar y safle a derbyn cyfrifoldeb i wneud popeth o fewn eu gallu i atal anaf iddynt hwy eu hunain neu i eraill.

Llofnodwyd _____
(Ar ran y Bwrdd Rheoli)

Enw: Dean Christy

Swydd: Cadeirydd, Bwrdd Rheoli Clarence Hall

Dyddiad: 20 Ionawr 2023

Dyddiad Adolygu: 20 Ionawr 2025

RHAN 2 - TREFN IECHYD A DIOGELWCH - CYFRIFOLDEBAU

Mae gan y Bwrdd Rheoli gyfrifoldeb cyffredinol am iechyd a diogelwch yn Clarence Hall, Crickhowell.

Yr unigolion a ddirprwywyd gan y Bwrdd Rheoli i fod â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am weithredu'r polisi hwn yw aelodau Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Neuadd:

1. Lynette Christy (cyfrifoldeb cyffredinol)
2. David Jeremiah
3. Duncan McInnes

Hysbysfwrdd Iechyd a Diogelwch	**Cabinet Wal Iechyd a Diogelwch**
Dyma le mae hysbysiadau Iechyd a Diogelwch a gwybodaeth gyhoeddus yn cael eu postio. Fe'i lleolir yn y Bar.	Dyma lle cedwir yr holl ddogfennau Iechyd a Diogelwch a'r Blwch Cymorth Cyntaf. Fe'i lleolir yn y Gegin.

Mae'n ddyletswydd ar holl ddefnyddwyr y Neuadd, ymwelwyr a chontractwyr i ofalu amdanynt eu hunain ac eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio arnynt a chydweithio â'r Bwrdd Rheoli i gadw'r eiddo mewn cyflwr diogel ac iach.

Mae Asesiad Risg cyffredinol, ar gael pan ofynnir amdano, ac wedi'i bostio ar yr hysbysfwrdd Iechyd a Diogelwch, y dylai holl ddefnyddwyr y Neuadd ei ddarllen a'i nodi. Lle bo'n briodol, os gallai gweithgareddau defnyddwyr fod â risgiau nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad risg cyffredinol, disgwylir iddynt gynnal eu hasesiad risg eu hunain a rhoi copi i'r Ysgrifennydd cyn i'r gweithgaredd ddigwydd.

Disgwylir i unrhyw gyrff allanol gan gynnwys contractwyr sy'n bwriadu gwneud gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio y tu mewn neu'r tu allan i'r adeilad gynnal eu hasesiadau risg eu hunain a rhoi copi i'r unigolyn sy'n gyfrifol am Iechyd a Diogelwch (gweler uchod) cyn dechrau ar y gwaith.

Os bydd unrhyw un sy'n defnyddio'r neuadd yn dod ar draws nam, difrod neu sefyllfa arall a allai achosi anaf ac na ellir ei unioni ar unwaith, dylai hysbysu'r unigolion uchod, neu'r Ysgrifennydd, Ann Chamberlain, cyn gynted â phosibl fel y gellir ymdrin â'r broblem. Lle caiff offer ei ddifrodi, dylid gosod nodyn arno yn rhybuddio na ddylid ei ddefnyddio. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer rhoi gwybod am ddiffygion a difrod ar yr Hysbysfwrdd Iechyd a Diogelwch.

Mae gan y bobl ganlynol gyfrifoldeb am eitemau penodol:

Blwch Cymorth Cyntaf	Ann Chamberlain, Ysgrifennydd
Adrodd am Ddamweiniau / RIDDOR	Ann Chamberlain, Ysgrifennydd
Rhagofalon a gwiriadau tân	Pwyllgor Iechyd a Diogelwch /Nigel Brace (Gofalwr)

Asesiadau Risg ac Archwiliadau	David Jeremiah / Nigel Brace (Gofalwr)
Gwybodaeth i Gontractwyr	Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
Gwybodaeth i Gyflogwyr	Ann Chamberlain (Ysgrifennydd) / Nigel Brace (gofalwr)

Mae cynllun o'r neuadd wedi ei atodi yn dangos lleoliad:

- allanfeydd tân
- diffoddwyr tân
- blwch ffiwsiau
- stopfalf
- boeler

Os bydd damwain, mae blwch cymorth cyntaf yn y Cabinet Wal Iechyd a Diogelwch (gweler Rhan 4 – Damweiniau ac Adrodd am Ddamweiniau).

RHAN 3 - DIOGELWCH TÂN

Rhagofalon a Gwiriadau Tân

Mae'r Bwrdd Rheoli yn monitro effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer cynllunio, trefnu, rheoli, monitro ac adolygu mesurau atal ac amddiffyn rhag tân drwy ei **Ddogfen Asesu Risg Tân**, sy'n cael ei storio yn y Cabinet Wal Iechyd a Diogelwch.

Mae'r Asesiad Risg Tân yn cynnwys y dogfennau a ganlyn:

a) Cynllun Llawr gyda gweithdrefnau gwacáu manwl
b) Rhagofalon Tân a Gweithdrefnau Gwacáu'r adeilad – Canllawiau i Logwyr
c) Hysbysiad "Mewn Achos Tân".

Arddangosir y 3 dogfen hyn yn amlwg yn y Neuadd. Maent hefyd yn rhan o'r Cytundeb Llogi fel bod trefnwyr digwyddiadau hefyd yn cael gwybod amdanynt.

3.1 Yr Awdurdod Tân

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SP
Ffôn: 0370 6060699
Gwefan: https://www.mawwfire.gov.uk/eng/
Cyfeiriad E-bost: mail@mawwfire.gov.uk

3.2 **Cyfrifoldeb am archwiliadau blynyddol a chynnal a gwasanaethu'r offer diogelwch tân, systemau trydanol a systemau gwresogi/dŵr poeth**:

(i) Enw Blackwood Fire Limited
Cyfrifoldeb Diffoddyddion Tân
Rhif ffôn: 01495 220399

(ii) Enw Chris Griffiths, Trydanwr
Cyfrifoldeb Gosodiadau trydanol, gan gynnwys goleuadau argyfwng
Rhif ffôn: 07974 764810

(iii) Enw Steve Williams & Sons Ltd.
Cyfrifoldeb Gosod boeleri nwy a gwres/dŵr poeth
Rhif Ffôn 07855 864407

3.3 **Lleoliad Cofnodion Gwasanaeth:** Cabinet Wal Iechyd a Diogelwch

3.4 **Gwiriadau a Chynnal a Chadw Rheolaidd**

Eitem	Cyfrifoldeb	Amlder
Drysau, waliau a pharwydydd sy'n gwrthsefyll tân	Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a Nigel Brace (Gofalwr)	Yn fisol
Llwybrau dianc a drysau allanfeydd		Yn fisol a chyn digwyddiad
Arwyddion diogelwch tân		Yn fisol
System rhybuddio rhag tân		Yn fisol
Offer diffodd tân		Yn fisol
Goleuadau Argyfwng		Yn fisol a bob 6 mis

3.5 **Gollyngiad Nwy:** os ydych yn amau bod nwy yn gollwng, ffoniwch y Rhif Cenedlaethol: 0800 111 999

RHAN 4 - DAMWEINIAU AC ADRODD AM DDAMWEINIAU

4.1 Ysbytai a Meddygfeydd Meddygon Teulu Cyfagos

Mân anafiadau: *(ee esgyrn wedi torri, ysigiad, clais, clwyf, llosg bach, brathiad, mân anaf i'r llygaid neu'r pen)*	**Ysbyty Nevill Hall**, Heol Aberhonddu, Y Fenni, NP7 7EG Ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos Ffôn: 01873 732732

Anafiadau difrifol ac argyfyngau sy'n bygwth bywyd	**Ysbyty Athrofaol y Faenor*** Heol Caerleon, Llanfrechfa, Cwmbran NP44 8YN Ffôn: 01633 493100
Meddygfa	Y feddygfa agosaf yw: **Canolfan Iechyd Crucywel**, Heol Beaufort, Crucywel, Ffôn: 01873 810255

***** Mae Ysbyty Athrofaol y Faenor yn darparu gwasanaethau arbenigol i gleifion sy'n ddifrifol wael neu'r rhai ag anafiadau sylweddol, a dyma'r uned drawma ddynodedig ar gyfer Gwent. Mae'n debygol, os oes angen i chi dderbyn gofal yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, y cewch eich cyfeirio yno gan Weithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol neu eich cludo yno ar ôl ffonio 999.

4.2 Diffibriliwr

Mae'r diffibriliwr agosaf wedi'i leoli yng Nghanolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crucywel, sydd y drws nesaf i Clarence Hall, gyferbyn â'r toiledau cyhoeddus.

4.3 Blwch Cymorth Cyntaf

Mae'r Blwch Cymorth Cyntaf wedi'i leoli yn y Cabinet Wal Iechyd a Diogelwch.

Yr unigolyn sy'n gyfrifol am ei gadw'n gyfredol yw: Ann Chamberlain

4.4 Ffurflenni Damweiniau

Mae ffurflenni damweiniau wedi'u lleoli yn y Cabinet Wal Iechyd a Diogelwch.

Rhaid llenwi ffurflen pryd bynnag y bydd damwain yn digwydd.

Mae'r hyn sy'n digwydd ar ôl i ddamweiniau ddigwydd yn gyfrifoldeb i Ann Chamberlain

Rhaid hysbysu'r Ysgrifennydd am y ddamwain ar unwaith fel y gellir adolygu'r ffurflen wedi'i chwblhau a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol. Yna bydd y ffurflen yn cael ei ffeilio'n gyfrinachol.

4.5 RIDDOR: (RIDDOR - Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013)

Mae RIDDOR yn gosod dyletswyddau ar gyflogwyr, yr hunangyflogedig a phobl sy'n rheoli safleoedd gwaith (yr Unigolyn Cyfrifol) i adrodd am rai damweiniau difrifol yn

y gweithle, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodol (damweiniau fu bron â digwydd).

Gellir cwblhau adroddiadau ar-lein drwy wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch https://www.hse.gov.uk/forms/incident/

Yr unigolyn sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni RIDDOR ac adrodd am ddamweiniau yw:

Ann Chamberlain

(i) RIDDOR - Anafiadau Penodedig i Weithwyr
Rhaid rhoi gwybod am yr anafiadau neu'r digwyddiadau mawr canlynol.

- toriadau, ac eithrio bysedd, bodiau a bysedd traed
- trychiadau (torri aelodau i ffwrdd)
- unrhyw anaf sy'n debygol o arwain at golli golwg yn barhaol neu leihad yn y golwg
- unrhyw anaf lle mae'r pen neu'r torso yn cael eu gwasgu gan achosi niwed i'r ymennydd neu organau mewnol
- llosgiadau difrifol (gan gynnwys sgaldio) sydd:
    - yn gorchuddio mwy na 10% o'r corff
    - yn achosi niwed sylweddol i'r llygaid, y system resbiradol neu organau hanfodol eraill
- torri neu rwygo unrhyw ran o groen y pen sydd angen triniaeth ysbyty
- unrhyw golli ymwybyddiaeth a achosir gan anaf i'r pen neu asffycsia
- unrhyw anaf arall sy'n deillio o weithio mewn man caeedig sydd:
    - yn arwain at hypothermia neu salwch a achosir gan wres
    - angen dadebru neu dderbyn yr unigolyn i'r ysbyty am fwy na 24 awr

(ii) RIDDOR - Clefydau galwedigaethol
Clefydau adroddadwy yw'r rhai sy'n gysylltiedig ag amlygiad galwedigaethol i beryglon penodol.

(iii) RIDDOR - Digwyddiadau Peryglus
Cynlluniwyd y rhestr o ddigwyddiadau peryglus i gael gwybodaeth yn bennaf am ddigwyddiadau sydd â photensial uchel o achosi marwolaeth neu anaf difrifol, ond sy'n digwydd yn gymharol anaml. Mae hyn yn galluogi'r awdurdodau i ddysgu am yr amgylchiadau a'u hachosion, gan ddarparu gwybodaeth werthfawr y gellir ei defnyddio i helpu i atal damweiniau.

Gellir cael gwybodaeth lawn am reoliadau RIDDOR a'r hyn sydd angen ei adrodd ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:
https://www.hse.gov.uk/riddor/index.htm

RHAN 5 - RHEOLAU DIOGELWCH

5.1 Llogwyr ac ymwelwyr

Mae'n ofynnol i bob llogwr ddarllen y Cytundeb Llogi cyfan a dylent lofnodi'r ffurflen llogi fel tystiolaeth eu bod yn cytuno â'r amodau llogi. Bydd pob llogwr newydd hefyd yn cael gwybodaeth/hyfforddiant gan yr Ysgrifennydd a/neu'r Gofalwr am weithdrefnau diogelwch ar safle'r neuadd y disgwylir iddynt eu dilyn a dangosir iddynt lle cedwir Ffurflenni Adrodd am Ddamweiniau, Asesiad Risg Cyffredinol a Gweithdrefn Gwacáu mewn Tân.

Bydd disgwyl i logwyr ac ymwelwyr gydnabod bod dyletswydd arnynt i gydymffurfio â'r arferion a nodir gan y Bwrdd Rheoli, â'r holl ofynion diogelwch a nodir yn y Cytundeb Llogi a hysbysiadau diogelwch ar y safle, a derbyn cyfrifoldeb i wneud popeth o fewn eu gallu i atal anaf iddynt hwy eu hunain neu i eraill. Mae'r Bwrdd Rheoli yn cadw'r hawl i derfynu'r cytundeb llogi os na chydymffurfir â'r gofynion hyn.

Lle bo'n briodol, os gallai gweithgareddau defnyddwyr fod â risgiau nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad risg cyffredinol, disgwylir iddynt gynnal eu hasesiad risg eu hunain a rhoi copi i'r Ysgrifennydd cyn i'r gweithgaredd ddigwydd.

5.2 Lleihau Risg

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi cynnal asesiadau risg sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd (gweler paragraff 5.3). Rhaid dilyn yr arferion canlynol er mwyn lleihau risgiau:

- Rhaid i bob drws allanfa argyfwng fod yn glir a heb ei gloi trwy gydol y llogi;
- Rhaid peidio â gweithredu na chyffwrdd â chyfarpar trydanol lle mae arwyddion o ddifrod;
- Ni ddylid defnyddio grisiau neu ysgolion oni bai eu bod wedi'u diogelu'n briodol a bod rhywun arall yn bresennol (gweler paragraff 5.5 "Gweithio ar Uchder");
- Ni ddylid gadael offer trydanol cludadwy yn gweithredu heb oruchwyliaeth;
- Ni ddylid defnyddio offer nwy cludadwy heb ganiatâd penodol gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch;
- Ni ddylid dod ag eitemau trydanol cludadwy nad ydynt wedi cael prawf PAT i'r eiddo;
- Ni ddylid ceisio symud eitemau trwm neu swmpus - rhaid defnyddio trolïau;
- Peidiwch â phentyrru cadeiriau yn rhy uchel - dim mwy na 10;
- Ni ddylid ceisio cario na thipio boeler dŵr pan fydd yn cynnwys dŵr poeth - rhaid ei adael i oeri yn gyntaf;
- Ni ddylid caniatáu i blant ddod i mewn i'r gegin ac eithrio dan oruchwyliaeth agos (ee ar gyfer gwersi coginio dan oruchwyliaeth neu, ar gyfer plant hŷn, gweini bwyd dan oruchwyliaeth yn ystod digwyddiadau). Dylid osgoi gorlenwi ac ni ddylid caniatáu rhedeg;
- Rhaid gwisgo dillad amddiffynnol addas wrth drin deunyddiau glanhau. Mae menig a ffedogau amddiffynnol wedi'u lleoli yn nrôr 4 y cabinet ffeilio yn y lle ar gyfer storio golygfeydd;

- Er mwyn gwarchod rhag peryglon llithro, rhaid mopio pob hylif sy'n cael ei arllwys ar unwaith, yn enwedig ar risiau neu loriau caboledig. Mae arwydd 'rhybudd, llawr gwlyb' ar gael yn y cwpwrdd glanhau yn y gegin;
- Peidiwch â gadael unrhyw wrthrychau neu offer lle gallent achosi perygl o faglu. Rhaid defnyddio golau digonol i osgoi baglu mewn mannau sydd wedi'u goleuo'n wael;
- Rhaid rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd neu un o'r Ymddiriedolwyr a enwebwyd am unrhyw dystiolaeth o ddifrod neu namau i offer neu gyfleusterau'r adeilad – mae'r manylion cyswllt ar yr hysbysfwrdd Iechyd a Diogelwch;
- Rhaid cofnodi damweiniau ar ffurflen Rhoi Gwybod am Ddamweiniau, a gedwir yn y Cabinet Wal Iechyd a Diogelwch, a rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r Ysgrifennydd hefyd – gweler adran 4.4.

5.3 Asesiadau Risg ac Arolygiadau

Cyfrifoldeb pob Ymddiriedolwr yw nodi a rhoi gwybod am unrhyw arfer neu gyflwr anniogel neu afiach y gallent ei arsylwi.

Bydd Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am agweddau ar Iechyd a Diogelwch yn rhoi gwybod i'r Bwrdd Rheoli ar unwaith am unrhyw ddamweiniau, diffygion, camddefnydd gan logwyr neu faterion eraill a allai effeithio ar iechyd a diogelwch defnyddwyr neu wirfoddolwyr.

Yr unigolion a ddirprwywyd gan y Bwrdd Rheoli i fod yn gyfrifol o ddydd i ddydd am ddarparu amodau, offer a systemau diogel i bob defnyddiwr yw:

1. Lynette Christy	
2. David Jeremiah	3. Duncan McInnes

Mae'r unigolion penodedig yn gyfrifol am drefnu arolygiadau rheoleiddio gan gyrff allanol cymeradwy, cynnal arolygiadau ffurfiol ac adolygu a, lle bo angen, adolygu'r asesiad risg iechyd a diogelwch.

Mae offer ar gyfer archwiliad rheoliadol yn cynnwys boeler nwy a chyfarpar nwy, larymau tân, gwasanaethau trydanol ac offer trydanol. Mae offer ar gyfer archwiliad anffurfiol yn cynnwys ysgolion step, larymau mwg, larwm carbon monocsid.

5.4 Contractwyr

Bydd gwiriadau'n cael eu gwneud gyda chontractwyr (gan gynnwys pobl hunangyflogedig) cyn iddynt ddechrau gweithio i sicrhau:

- Mae'r contract yn glir ac wedi ei ddeall gan y contractwyr a'r Bwrdd Rheoli.
- Mae'r contractwyr yn gymwys i wneud y gwaith (ee mae ganddynt gymwysterau, geirdaon, profiad priodol).

- Mae gan gontractwyr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol.
- Mae contractwyr wedi gweld y ffeil iechyd a diogelwch ac yn ymwybodol o unrhyw beryglon a allai godi (ee ceblau trydan neu bibellau nwy).
- Nid yw contractwyr yn gweithio ar eu pen eu hunain ar ysgolion ar uchder (os oes angen dylai gweithiwr neu aelod o'r Bwrdd Rheoli fod yn bresennol).
- Mae gan gontractwyr eu polisi iechyd a diogelwch eu hunain ar gyfer eu staff.
- Mae'r contractwr yn gwybod pa aelod o'r Bwrdd Rheoli sy'n gyfrifol am oruchwylio bod ei waith yn unol â'r gofyn ac i safon foddhaol.
- Rhaid i unrhyw addasiadau neu ychwanegiadau i'r gosodiadau neu'r offer trydanol gydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol neu God Ymarfer Sefydliad y Peirianwyr Trydanol.

5.5 Gweithio ar Uchder

Mae gweithio ar uchder yn golygu gwaith mewn unrhyw le, lle gallai unigolyn, pe na bai unrhyw ragofalon yn eu lle, syrthio'n ddigon pell i achosi anaf personol. Achosion cyffredin yw cwympo oddi ar ysgolion a thrwy doeau bregus. Nod Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 yw atal marwolaethau ac anafiadau yn deillio o gwympo o uchder. Mae llyfryn cynghori HSE ar Weithio ar Uchder i'w gael yn y cwpwrdd wal Iechyd a Diogelwch a dylid cyfeirio ato cyn gwneud unrhyw waith o'r fath.

5.6 Hylendid Bwyd

Yn unol â rheoliadau'r awdurdod lleol, mae Clarence Hall wedi'i gofrestru gyda Chyngor Sir Powys fel mangre bwyd a chafodd sgôr o 5*.

Rhaid i unrhyw Hurwyr sy'n defnyddio cyfleusterau'r gegin/bar gydymffurfio â'r wybodaeth sy'n ymwneud â Hylendid Bwyd a gedwir yn y cwpwrdd Iechyd a Diogelwch ar y wal.

Paratowyd Asesiad Risg Hylendid Bwyd sydd wedi'i leoli yn y Cabinet Wal Iechyd a Diogelwch.

5.7 COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd)

Yr unig sylweddau a ddefnyddir yn y Neuadd yw cynhyrchion glanhau. Cedwir hylif golchi llestri yn y gegin gan fod angen iddo fod yn hygyrch. Cedwir sylweddau eraill yn y cwpwrdd glanhau dan glo gyda mynediad i ddefnyddwyr awdurdodedig y neuadd yn unig.

Mae Asesiad Risg COSHH wedi'i baratoi ac fe'i lleolir yn y Cabinet Wal Iechyd a Diogelwch.

5.8 Rhagofalon COVID

Mae'r Bwrdd Rheoli yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch gweithredu'r Neuadd ac yn paratoi unrhyw asesiadau risg Covid angenrheidiol sy'n ymwneud â digwyddiadau a drefnir gan y Bwrdd Rheoli.

Darperir hylif diheintio dwylo a chlytiau diheintio ar gyfer defnyddwyr y neuadd a'r llogwr wrth y fynedfa, yn y toiledau ac yn y gegin.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn ei gwneud yn ofynnol i bob llogwr hefyd ddilyn rheolau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'u gweithgaredd penodol a chyfrifoldeb y llogwr yw ymgyfarwyddo â'r rheolau cyffredinol a pharatoi unrhyw asesiad risg Covid gofynnol.

Os na chydymffurfir â'r gofynion hyn, mae'r Bwrdd Rheoli yn cadw'r hawl i derfynu'r llogi/trwydded ar unwaith, heb ad-dalu rhan neu'r cyfan o'r ffioedd llogi. Y Llogwyr/Trwyddedwyr sy'n ysgwyddo'r holl gyfrifoldeb sy'n deillio o unrhyw fethiant i gadw at y Telerau ac Amodau.

RHAN 6 – TREFNIADAU CYFFREDINOL

6.1 Trwydded(au)

Mae gan y neuadd Drwydded Safle a roddwyd gan Gyngor Sir Powys.

Gwneir cais am drwyddedau eraill ar sail ad hoc.

6.2 Yswiriant

Darperir yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr ac Atebolrwydd Cyhoeddus Clarence Hall gan:

Ansvar Insurance

Polisi Rhif CCP2218710

Dyddiad Adnewyddu: yn flynyddol ar 6ed Ebrill

6.3 Adolygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch

Bydd y Bwrdd Rheoli yn adolygu'r polisi hwn o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Iechyd a Diogelwch yn eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfod Rheoli misol.

Dyddiad y diweddariad diwethaf a chymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli: Ionawr 2023
Dyddiad yr adolygiad nesaf: Ionawr 2025
Swyddog cyfrifol: Lynette Christy